# Ysgol Pen Barras

**"Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg"**

Ffordd Glasdir, Ffôn: 01824 704129
Rhuthun, e-bost : pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Sir Ddinbych Pennaeth : Mr Dyfan Mael Phillips
LL15 1QQ

06/09/24

Annwyl Rieni,

Wel, dyma ni ar drothwy penwythnos yn barod! Tydi'r wythnos wedi hedfan. Mae wedi bod mor braf i ni fel staff gael croesawu pawb yn ôl i'r ysgol- cael sgwrsio am eu hynt a'u helyntion dros yr haf. Gwych iawn.

Byddwn yn anfon cylchlythyr yn rhestru'r clybiau allgyrsiol sydd ar gael i blant yn ystod y tymor wythnos nesaf. Bydd Clybiau yn dechrau wythnos Medi 16eg ymlaen. Edrychwch allan am y daflen .

**Urdd-** Mae rhaglen Testunau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2025 wedi ei gyhoeddi wythnos yma. Byddwn fel staff yn pori drwy'r rhaglen yn edrych ar destunau amrywiol ar gyfer flwyddyn nesaf. Mi rannwn ddyddiadau Eisteddfodau flwyddyn nesa allan yn fuan iawn i rieni hefyd. Mae manylion cofrestru fel aelodau'r Urdd ar gyfer 2024-25 wedi'w rhannu eisoes ar APP yr ysgol a thudalen Facebook yr ysgol.

**Trefniadau Amser Cinio-** Rwyf yn awyddus hefyd i adolygu systemau ac amserlenni amseroedd cinio i blant yn ystod y tymor- byddaf hefyd yn gwyntyllu barn plant, staff a rhieni am y trefniadau.

**Llais Rhieni-** Rwyf yn awyddus iawn i gael barn rhieni ar gryfderau a meysydd i ddatblygu'r ysgol. Yn fuan iawn, fydd holiadur ar ffurf 'Google form' yn mynd allan. Mo d holiadur byr i gael 'snapshot' o farn rhieni ar rhai agweddau- cofiwch ei gwblhau.

**Rhiant Lywodraethwyr**- Mae Corff Llywodraethol Ysgol Pen Barras yn chwilio am ddau riant lywodraethwr newydd i ymuno a'r corff. Byddaf yn rhannu manylion o'r broses ethol yn fuan iawn. Cyfle i chwi yn y cyfamser i ystyried os hoffech ymuno a'r corff. Mae hyn yn rôl hynod bwysig ac yn cyfrannu tuag at gyfeiriad strategol dyfodol yr ysgol. Petawn yn derbyn mwy na dau enwebiad, yna byddwn yn mynd trwy broses agored a theg o ethol. Manylion i ddilyn.

**Tudalen Facebook-** Mae ymateb da wedi bod ers i ni lansio'r tudalen swyddogol Facebook newydd i'r ysgol. Cofiwch ymuno. Mae'n ffordd effeithiol o gyfathrebu a rhannu gwybodaeth efo rhieni.

Mwynhewch y penwythnos gyda'ch teuluoedd.

*'Cariad at iaith, gwaith a gwên,*
*a lywia ysgol lawen'.*

*Yn gywir,*
*Dyfan Phillips*
*PENNAETH*
*YSGOL PEN BARRAS*

# Ysgol Pen Barras

**"Gweithiwn â gwên yn sŵn y Gymraeg"**

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych
LL15 1QQ

Ffôn: 01824 704129
e-bost : pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth : Mr Dyfan Mael Phillips

06/09/24

Dear Parents,

Hasn't the week flown by! I hope the pupils have all enjoyed a good first week back in school. It has been lovely catching up with pupils, putting the world to right and discussing ideas, topic work themes for the forthcoming term.
Early next week, we will issue a newsletter to parents regarding after school extra curricular clubs for pupils for the term. Clubs will begin during week beginning September 16th onwards. Look out for the newsletter.

**Urdd-** The Urdd National Eisteddfod syllabus for 2025 has this week been published. We will be looking through the syllabus as we look forward to competing again in next year's Eisteddfodau. Exciting times.
We will also share with parents next week key dates in relation to all Urdd competitions. Remember to make a note of the dates. Membership details for Urdd 2024-2025 have also been shared on school App and Facebook account.

**Lunchtime Arrangements-** As head teacher, I am very eager to review lunchtime arrangements and timetables for pupils here at Ysgol Pen Barras- I will be grateful for any views from pupils, staff and parents on any proposed future changes.

**Parental Voice**- I am also very eager to gauge parental views on the strengths and areas to develop here at Ysgol Pen Barras. A short Google Form questionnaire will go out shortly to parents to gain a 'snapshot' or 'state of the nation' of the school. Please suppport by completing the online Google Form.

**Parent Governor Role-** We will be recruiting soon for two posts as Parent Governors on the Board of Governors here at Pen Barras. Early correspondence of this is intended to give parents time to consider if they would like to be nominated. Should we have more than two nominations, we will follow a fair and transparent ballot Process. Further details to follow.

**Ysgol Pen Barras Official Facebook account-** The early response to the new Facebook page has been very encouraging. Please encourage other Ysgol y Llys parents to follow our page. It is an effective method in communciating quickly with our school community.

I hope you all have a pleasant weekend with your families.

*'Cariad at iaith, gwaith a gwên,*
*a lywia ysgol lawen'.*

*Kind regards*
*Dyfan Phillips*
*HEAD TEACHER*
*YSGOL PEN BARRAS*